

CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWDYD AR 30 EBRILL YN NHŶ HASTINGS, CAERDYDD.

Yn bresennol: Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFFDLC yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Rhys Brooks (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon)

Amser Dechrau: 10:15

Amser Gorffen: 13:30

Ymddiheuriadau: Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mrs Caroline Redmond (Cynorthwydd Swyddfa)

Gwestai: Farhan Khan (Llywodraeth Cymru)

1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Llythyr Cylch Gwaith 2019/20 gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cynnwys:

- Effaith Brexit, a
- Hygyrchedd yr adroddiadau a lunnir gan y Comisiwn, a rhoddir ystyriaeth i'r rhain yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

2.2. Rhoddwyd ystyriaeth i ymweliad y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol â'r Comisiwn, sydd ar y gweill, ac i baratodau ar gyfer yr ymweliad.

2.3. Mynegwyd llongyfarchiadau i Cher Cooke ar ei chais llwyddiannus am swydd barhaol Swyddog Arolygon.

2.4. Croesawodd y Cadeirydd Mr Rhys Brooks i'r cyfarfod a dymunodd yn dda iddo yn ei waith gyda'r Comisiwn.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2019 a Chofnodion Cyfarfod yr Is-bwyllgor Gweithlu a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2019

- 3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2019 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.
- 3.2. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2019 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

4. Materion yn Codi

- 4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 16 Ebrill 2019 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.
- 4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a hefyd nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddarau ar y materion canlynol:
 - **(Mater 1)** Gwobr Iechyd y Gweithle Bach
 - **(Mater 3)** Polisiâu Adnoddau Dynol
 - **(Mater 5)** Rhaglen Newid
 - **(Mater 6)** Safonau'r Gymraeg.

5. Arolwg Etholiadol Sir Gaerfyrddin – Opsiynau Terfynol

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 05 Ebrill 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 5.2. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynigion Drafft ar gyfer Ardal Rhydaman, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Rhydaman a Phontaman

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Maent yn gwneud ychydig o welliant i amrywiant etholiadol
- Er eu bod yn cynnig ward dau aelod, mae'n ardal gymharol drefol gyda chysylltiadau cyfathrebu da
- Maent yn mynd i'r afael â ward ar wahân Pontaman.

- 5.3. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynigion Drafft ar gyfer Ardal Llanedi, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Hendy a Thycroes

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Maent yn gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Maent yn cadw dwy ward un aelod.

5.4. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer ardal Llanelli Wledig, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Bynea, Dafen, Felin-foel, Glyn, Hengoed, Llwynhendy a Swiss Valley

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel yr amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n dilyn cynrychiolaethau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol
- Mae'n osgoi creu ward tri aelod.

5.5. Cytunodd y Comisiwn ar Gynllun 1 ar gyfer Ardal Llanelli, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Bigyn, Elli, Glan-y-môr, Lliedi, Tyisha

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefelau'r amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n cynyddu nifer yr aelodau mewn ardal lle rhagwelir cynnydd yn y boblogaeth ym mhob ward
- Mae'n mynd i'r afael â mwyafrif y safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau.

5.6. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Ardal Tref Caerfyrddin, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Gogledd Tref Caerfyrddin, De Tref Caerfyrddin a Gorllewin Tref Caerfyrddin

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Mae'n mynd i'r afael â chynrychiolaeth a dderbyniwyd oddi wrth y Swyddog Canlyniadau yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol drwy uno ward y Gogledd a ward y De
- Nid yw'n ymddangos bod y newidiadau i'r ffiniau a awgrymwyd gan Gyngor Tref Caerfyrddin yn hawdd i'w hadnabod ac ymddengys eu bod yn rhannu Tref Caerfyrddin wrth fypwy. Nid yw'r newidiadau hyn i'r ffiniau wedi'u craffu gan y cyhoedd.

- Nid yw'r wardiau a gynigir wrth newid y ffiniau fel yr awgrymwyd gan Gyngor Tref Caerfyrddin yn darparu gwelliant mor sylweddol i gydraddoldeb etholiadol â'r cynigion drafft.

5.7. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Ardal Cydweli, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Cydweli, Llangyndeyrn, Llanismel a Thrimsaran

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n osgoi creu ward etholiadol tri aelod mewn ardal gymharol wledig
- Mae'n osgoi rhannu Cymuned Llangyndeyrn.

5.8. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Ardal Cynwyl Elfed, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Cynwyl Elfed, Llanboidy, Llansteffan, Sanclêr a Thre-lech

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n mynd i'r afael â chynrychiolaeth Cyngor Cymuned Bronwydd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol.

5.9. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Ardal Cenarth a Llangeler, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Cenarth a Llangeler

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol.

5.10. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Ardal Cynwyl Gaeo, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Cil-y-cwm, Cynwyl Gaeo, Llanymddyfri, Llanfihangel-ar-arth, Llanybydder, Maenordeilo a Salem

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n cadw wardiau un aelod mewn ardal wledig.

5.11. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y bydd ward etholiadol Cwarter Bach a argymhellir yn cael yr enw sengl a argymhellir, sef Cwarter Bach, fel y cynigiwyd gan y Swyddog Canlyniadau.

6. Arolwg Etholiadol Abertawe – Adroddiad Drafft

- 6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 23 Ebrill 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 6.2. Ystyriodd y Comisiwn yr enwau a argymhellir gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 6.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

7. Arolwg Etholiadol Sir Benfro – Adroddiad Terfynol

- 7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 11 Ebrill gan y Rheolwr Arolygon.
- 7.2. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad.
- 7.3. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y rhoddir yr enw Cymraeg a argymhellir, sef Rudbaxton a Spittal, i ward etholiadol Rudbaxton a Spittal a argymhellir, fel y cynigiwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 7.4. Ystyriodd y Comisiwn yr asesiadau effaith ar gyfer yr arolwg. **Cytunwyd** ar yr Asesiadau Effaith yn amodol ar fân newidiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon.

8. Arolwg Etholiadol Conwy – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Ebrill 2019 gan y Swyddog Arolygon
- 8.2. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon.

9. Arolwg Etholiadol Conwy – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

- 9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Ebrill 2019 gan y Swyddog Arolygon
- 9.2. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad.

10. Arolwg Etholiadol Sir Ddinbych – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Ebrill 2019 gan y Swyddog Arolygon
- 10.2. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad, yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon.

11. Arolwg Etholiadol Sir Ddinbych – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

- 11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Ebrill 2019 gan y Swyddog Arolygon
- 11.2. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad.

12. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

- 12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Ebrill 2019 gan y Rheolwr Cyllid.
- 12.2. **Cytunodd** y Comisiwn i ychwanegu camau lliniaru newydd at risg CR5, mewn perthynas â phrydlondeb Llywodraeth Cymru wrth benodi Cadeirydd newydd ar gyfer y Comisiwn, sef y Dirprwy Gadeirydd yn cymryd lle'r Cadeirydd, os oes angen, yn dilyn eu hymadawiad, a galluogi aelodau i ddefnyddio Skype ar gyfer mynychu cyfarfodydd o bell a chynnal cworwm o aelodau sy'n mynychu. Nodwyd y dylai statws risg Risg CR5 fod yn oren ac nid yn goch ar y Radar Risg, i adlewyrchu lefel y risg yn y Gofrestr Risg.
- 12.3. **Cytunodd** y Comisiwn i ddiwygio'r Cynllun Parhad Busnes i adlewyrchu uwchraddio TG Skype a'r gallu i gynnal cyfarfodydd rhithwir o ddiwedd mis Mai 2019.
- 12.4. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad.

13. Adroddiad ar y Gyllideb

- 13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Ebrill 2019 gan y Rheolwr Cyllid.
- 13.2. Nododd a chytunodd y Comisiwn ar y trosglwyddiadau rhwng penawdau gwariant er mwyn mynd i'r afael â diffygion fel y nodir yn yr adroddiad. Nodwyd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn fel tanwariant o £51.6K, gyda £13.8K o'r ffigwr hwnnw'n gyllid Seneddol Swyddfa'r Cabinet ar gyfer CFfC. Roedd hyn yn gadael tanwariant o £38K yng Nghymorth Grant Llywodraeth Cymru ar gyfer CFfDLC.
- 13.3. **Nodwyd** yr adroddiad.

14. Cyfrifon Blynyddol 2018-19 – Nid yw Effaith Safonau Cyfrifyddu Ar Waith hyd yn hyn

- 14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Ebrill 2019 gan y Rheolwr Cyllid.
- 14.2. Nodwyd mai'r unig Safon Gyfrifyddu i'w gweithredu a fyddai'n effeithio ar gyfrifon blynyddol y Comisiwn oedd IFRS16 a oedd yn ymwneud â phrydlesi. Nid oedd y safon hon i'w gweithredu tan 2019-20, ac felly nid oes unrhyw safonau cyfrifyddu newydd sydd angen eu mabwysiadu ar gyfer cyfrifon blynyddol 2018-19 ar hyn o bryd. **Cytunwyd** y dylai geiriad y nodyn yng nghyfrifon blynyddol 2018-19 aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol, ar safonau cyfrifyddu nad ydynt ar waith hyd yn hyn.
- 14.3. **Nododd** y Comisiwn yr adroddiad.

15. Adroddiad Cynnydd y Prosiect Trawsnewid TGCh

- 15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Busnes.
- 15.2. Cytunwyd na fydd Adroddiad Cynnydd y Prosiect Trawsnewid TGCh yn eitem sefydlog ar yr agenda bellach ac y bydd adroddiad gwersi a ddysgwyd yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn maes o law.
- 15.3. Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

16. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

- 16.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.
- 16.2. **Cytunwyd** ar wneud mân ddiwygiad i'r tabl yn atodiad A er mwyn adlewyrchu'r Cynigion Drafft ar gyfer Abertawe.

- 16.3. **Cytunwyd** ar ychwanegu dyddiadau'r cyfnod o chwe wythnos ar gyfer cynrychiolaethau i Lywodraeth Cymru lle bo hynny'n berthnasol i arolygon lle mae Argymhellion Terfynol wedi'u cyflwyno.
- 16.4. Ni chodwyd unrhyw newidiadau i'r risgiau presennol.
- 16.5. **Nodwyd** cynnwys yr adroddiad.

17. Proses Sicrhau Ansawdd ar gyfer y Gymraeg

- 17.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Ebrill 2019 gan y Prif Weithredwr.
- 17.2. **Cytunwyd** y bydd staff yn cynnal gwiriad fformatio ar gyfer fersiynau Cymraeg o Adroddiadau a bod Sicrhau Ansawdd ar gyfer y Gymraeg yn cael ei ddileu o'r broses adolygu a'r rhestr wirio.
- 17.3. **Cytunwyd** ar ychwanegu'r datganiad – *Darparwyd y cyfieithiad o'r Adroddiad hwn gan Trosol* ar dudalen mynegai adroddiadau ar arolygon.

18. Calendr Digwyddiadau

- 18.1. **Cytunwyd** ar ychwanegu dyddiadau briffio gan y Prif Weithredwr a chyfarfodydd adolygu i'r Calendr lle bo hynny'n bosibl.
- 18.2. **Cytunwyd** ar ddiwygio'r calendr i nodi y cynhelir cyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr ar ddydd Mawrth 19 Rhagfyr.
- 18.3. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

19. Unrhyw Fusnes Arall

- 19.1. Trafododd y Comisiwn y cyfarfod sydd ar y gweill â'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
- 19.2. Trafododd y Comisiwn y swydd wag ar gyfer aelod annibynnol o fwrdd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mai'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 30 Ebrill.
- 19.3. Cytunodd y Comisiwn ar gyhoeddi adroddiad Dadansoddiad o'r Estyniad i'r Etholfraint ar y Rhaglen Arolygon Etholiadol 2017 ar wefan y Comisiwn.

- 19.4. Cytunwyd y bydd y Prif Weithredwr yn archwilio opsiynau mewn perthynas ag amcan hygyrchedd adroddiadau ar Arolygon o fewn y llythyr Cylch Gwaith ac y bydd yn paratoi papur rhagarweiniol ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 29 Mai 2019